2022

# Canllaw Asesu Arsylwadol y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid



**<u>Cyflwyniad.</u>** Un o brosesau'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yw cofnod arsylwadol i sicrhau bod yr ymarfer Gwaith Ieuenctid yn cael ei gyflwyno mewn ffordd ymarferol a bwriadol a'i fod yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn Fframwaith y Marc Ansawdd. Bydd y canllaw canlynol yn galluogi aseswyr i wneud nodiadau byr ar arsylwadau a chofnodi arferion nodedig.

**Pwyntiau allweddol i'w cofio:** Dylai aseswyr gofnodi amser a dyddiad y cofnod arsylwi, beth sy'n digwydd yn y sesiwn a beth yw pwrpas y gweithgareddau. Anogwn Aseswyr i nodi unrhyw ddyfyniadau gan bobl ifanc, staff a gwirfoddolwyr sy'n berthnasol i'r sesiwn ac sy'n ddefnyddiol wrth fodloni'r meini prawf asesu.

**Awgrymiadau da ar gyfer nodiadau effeithiol:-**

- **Byddwch yn ffeithiol ac yn wrthrychol wrth gofnodi**
- **Cofnodwch mewn ffordd fanwl ond cryno sy'n rhoi cipolwg**
- **Canolbwyntiwch ar y rhyngweithiadau rhwng staff neu wirfoddolwyr a phobl ifanc**
- **Nodwch ddyfyniadau gan staff neu wirfoddolwyr a phobl ifanc**
- **Cyfeiriwch at yr amgylchedd a'r awyrgylch ar y pryd**

**Disgrifiwch y sesiwn yn nhermau pwy, beth, pryd, ble a pham y cafodd ei chynllunio.**

**Cynnwys awgrymedig adroddiad ar ymweliad**.

- Dylech gynnwys unrhyw adborth gan bobl ifanc ynglŷn â sut maen nhw'n teimlo am eu 'Gweithiwr Ieuenctid', eu profiadau gyda'r sefydliad gwaith ieuenctid hwn neu'r effaith y mae wedi'i chael ar eu datblygiad personol a chymdeithasol.
- Dylech hefyd gynnwys arsylwadau ar yr amgylchedd, gwybodaeth a chyngor sydd ar gael i bobl ifanc, a yw pobl ifanc yn gweithredu fel mentoriaid, arweinwyr ifanc a/neu wirfoddolwyr gweithredol.
- Dylech gyfleu nod ac amcanion unrhyw sesiynau, lleoliad cyffredinol neu wedi'i dargedu, neu os yw'n lleoliad galw heibio, disgrifiwch y gweithgareddau sydd ar gael i bobl ifanc neu os ydynt mewn grwpiau cymdeithasol a/neu'n ceisio Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad neu'n trafod gyda'r bobl ifanc yn gyffredinol
- A yw'r ddarpariaeth yn cynnig lleoliadau i fyfyrwyr dan hyfforddiant ac yn darparu profiad dysgu dan oruchwyliaeth? Os felly, sut maen nhw'n rhyngweithio â'r bobl ifanc?

Gellir defnyddio cofnodion arsylwadol i gadarnhau nifer o ddatganiadau arfer da a dangosyddion allweddol y Marc Ansawdd. Gellir cymhwyso’r rhain ar draws 3 lefel y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid.

**Efydd**

- Mae’r bobl ifanc yn ymgysylltu â gwaith ieuenctid ac yn gallu dysgu, cyflawni a gwneud cynnydd
- Mae’r staff neu’r gwirfoddolwyr a’r bobl ifanc yn gallu dangos gwelliannau mewn datblygiad personol a chymdeithasol.
- Mae’r bobl ifanc yn gallu negodi a gosod nodau, cynllunio, arwain a threfnu gweithgareddau.
- Mae’r bobl ifanc yn gallu cymryd rhan mewn gwerthuso eu dysgu a’u cynnydd eu hunain.

**Arian**

- Mae’r bobl ifanc yn cael cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a’u dealltwriaeth
- Mae’r bobl ifanc yn gallu datblygu eu sgiliau cymdeithasol
- Mae enghreifftiau helaeth o sut mae ymgysylltu â gwaith ieuenctid yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at agweddau eraill ar eu bywydau.

**Aur**

- Mae’r bobl ifanc yn deall gwerth cofnodi neu achredu eu dysgu
- Mae’r sefydliad yn sicrhau bod y bobl ifanc yn achub ar gyfleoedd i gofnodi neu achredu eu dysgu
- Mae diwylliant sefydliadol o ddathlu dysgu a chyflawniadau’r bobl ifanc, ni waeth pa mor fawr neu fach.

## YMARFER BWRIADOL

Dylai aseswyr geisio adrodd ar arfer da o ran ymarfer bwriadol gweithwyr ieuenctid, sef y sgiliau proffesiynol a’r bwriad pwrpasol a ddefnyddir i ymgysylltu â phobl ifanc.

Mae ymarfer bwriadol yn golygu defnyddio amryw ddulliau i ymgysylltu â phobl ifanc mewn ffordd gynlluniedig a threfnus.

Mae ymarfer bwriadol yn datblygu dros amser drwy ennill profiad a defnyddio ymarfer myfyriol i wella datblygiad proffesiynol. Mae’n rhaid i’r ymarfer bwriadol arwain at fuddion i bobl ifanc, bod yn brofiadau cadarnhaol trwy ystod hyblyg neu weithgareddau mewn cwricwlwm eang y bu’r bobl ifanc yn rhan o’r broses o’i gynllunio.

Mae datblygu perthnasoedd dibynadwy, a darparu amgylchedd diogel yn ffisegol ac yn emosiynol yn ganlyniadau allweddol ymarfer bwriadol. Os oes canlyniadau dysgu ychwanegol anffurfiol neu heb fod yn ffurfiol, cofnodwch nhw.

Mae’n bwysig cofnodi arfer da a dathlu hyn gyda chymheiriaid yn yr adroddiad asesu terfynol.

**Dylid defnyddio'r ffurflen ganlynol fel cymorth cof**. Cofiwch gynnwys unrhyw ddyfyniadau nodedig gan bobl ifanc sy'n helpu i ddangos effaith a chanlyniadau'r Gwaith Ieuenctid ar eu bywydau a/neu gymuned.

| **Cofnod arsylwadol ar gyfer (rhowch enw'r ddarpariaeth)** | **Gweithgaredd, grŵp neu sesiwn** | **Dyddiad arsylwi** | **Enw'r Aseswr/Aseswyr** |
|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu | Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn datblygu perthnasoedd | Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn dangos gwerthoedd ac egwyddorion | Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn hwyluso dysgu a datblygiad y bobl ifanc |
| Mae'r gweithlu'n sefydlu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol â'r bobl ifanc | | | |
| Mae'r gweithlu'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddatblygu ymddiriedaeth ac ymgysylltu â phobl ifanc | | | |
| Mae'r bobl ifanc yn ymwneud â negodi rheolau sylfaenol a chodau ymddygiad fel mater o drefn | | | |
| Mae ymddygiad amhriodol yn derbyn sylw yn gyson | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae’r gweithwyr ieuenctid yn darparu amgylchedd diogel i’r bobl ifanc yn ffisegol ac yn emosiynol | | | |

**Dyfyniadau**

- Gall aseswyr roi enghreifftiau o arfer da y gellir eu defnyddio’n ddiweddarach yn yr adroddiad asesu terfynol.
- Gellir cofnodi sylwadau neu ddyfyniadau gan y bobl ifanc hefyd a’u defnyddio’n ddiweddarach, gyda chaniatâd, mewn adborth ac yn yr adroddiad terfynol.
- Dylai aseswyr ystyried dulliau, ymagwedd a thechnegau ymgysylltu (wyneb yn wyneb, digidol) Gweithwyr Ieuenctid a chyfeirio at unrhyw fentrau a dulliau nodedig a ddefnyddiwyd i sicrhau bod y bobl ifanc yn gallu ffynnu.
- Dylai aseswyr hefyd gyfeirio at unrhyw ganlyniadau dysgu anffurfiol neu heb fod yn ffurfiol o weithgareddau a gynlluniwyd.
- Mae’r amgylchedd a ddarperir gan Weithwyr Ieuenctid yn ffactor i’w ystyried hefyd. Ydy’r bobl ifanc yn teimlo’n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn gallu cael eu cynnwys?
- Ydy’r gweithwyr ieuenctid yn sicrhau bod y bobl ifanc yn garedig ac yn parchu eu safbwyntiau ei gilydd a’u dewisiadau mewn bywyd?
- Ydy’r bobl ifanc yn cymryd rhan weithredol yn y sesiynau a arsylwir?

- Ydy'r bobl ifanc yn cael cyfle i fynegi eu hunain?

**Mae'r canlynol yn enghraifft o gymorth cof wedi'i gwblhau. Dilynwch y canllaw ENGHREIFFTIOL a defnyddiwch y datganiadau dangosydd allweddol i gefnogi'ch nodiadau a'ch arsylwadau. Mae'r grid isod yn rhoi enghreifftiau o'r hyn a ddisgwylir wrth arsylwi.**

**Enghraifft yn unig i gyfeirio ati.**

| Meini prawf asesu | Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn datblygu perthnasoedd | Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn dangos gwerthoedd ac egwyddorion | Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn hwyluso dysgu a datblygiad y bobl ifanc |
|---|---|---|---|
| Mae'r gweithlu'n sefydlu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol â'r bobl ifanc | e.e. Mae'r bobl ifanc yn cael eu croesawu, defnyddir enwau cyntaf a llysenwau, ac mae atgyfnerthu cadarnhaol yn amlwg | e.e. Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn empathetig, yn gydymdeimladol ac yn gynhwysol | E.e. Defnyddir technegau dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, ac mae'r bobl ifanc yn gwerthuso'r hyn maen nhw'n ei ddysgu. |
| Mae'r gweithlu'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddatblygu ymddiriedaeth ac ymgysylltu â phobl ifanc | e.e. Defnyddiodd y gweithwyr ieuenctid amrywiaeth o adnoddau ac offer cyfathrebu i ymgysylltu â'r bobl ifanc<br>? | E.e. Mae'r gweithgareddau'n gynhwysol ac wedi'u cynllunio gyda chyfraniad gan y bobl ifanc. | E.e. Mae'r bobl ifanc yn cydnabod eu bod wedi gwella eu dealltwriaeth a'u sgiliau cymdeithasol. |
| Mae'r bobl ifanc yn ymwneud â negodi rheolau sylfaenol a chodau ymddygiad fel mater o drefn | e.e. Wrth eu holi, mae'r bobl ifanc yn gallu esbonio rheolau'r clwb neu'r prosiect | e.e. Mae'r gweithiwr ieuenctid yn cael ei arwain gan anghenion y bobl ifanc ac yn eu grymuso i chwarae rôl weithredol | e.e. Mae'r bobl ifanc yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i bobl eraill ac i fod yn empathig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae ymddygiad amhriodol yn derbyn sylw yn gyson | E.e. Mae ymddygiad gwael yn cael ei herio gan y staff, y gwirfoddolwyr a’r bobl ifanc. | e.e. Mae’r staff a’r gwirfoddolwyr yn herio ymddygiad gormesol a bwlio | E.e. Mae’r staff yn gallu sicrhau bod y bobl ifanc yn deall eu hemosiynau a’u hymatebion. |
| Mae’r gweithwyr ieuenctid yn darparu amgylchedd diogel i’r bobl ifanc yn ffisegol ac yn emosiynol | E.e. Mae’r staff a’r gwirfoddolwyr yn dangos empathi ac ymddygiad anfygythiol sy’n arwain at amgylchedd diogel i’r bobl ifanc. | e.e. Mae’r staff a’r gwirfoddolwyr yn caniatáu i’r bobl ifanc fynegi eu hunain mewn amgylchedd diogel | e.e. Mae’r bobl ifanc yn ymwybodol o wahaniaethau personol ac yn gefnogol i bobl eraill. |

Atodiad A

## Awgrymiadau a chynghorion ar gyfer Ymweliadau Asesu Ymarfer y Marc Ansawdd

Yn ystod ymweliad asesu, bydd cyfle i weld gwybodaeth ar gyfer pob agwedd ar y fframwaith Marc Ansawdd. Pan fydd cyfle'n codi i gynnal ymweliad arsylwadol, bydd gennych syniad eisoes o'r hyn sy'n gweithio'n dda yn y sefydliad ac unrhyw feysydd nad ydynt yn cyrraedd y safonau eto, o bosibl. Dylai'r ymweliad arsylwadol gael ei ddefnyddio i driongli gwybodaeth am eich barn ynglŷn â'r sefydliad, gyda phwyslais penodol ar safbwyntiau pobl ifanc, y perthnasoedd â gweithwyr ieuenctid, ac i ba raddau y mae'r hyn y mae'r sefydliad wedi'i ddisgrifio yn digwydd mewn gwirionedd yn ymarferol.

Mae ymweliadau arsylwadol yn gofyn i chi ddefnyddio sgiliau gweledol a llafar, ac os oes digon o amser fe allwch hefyd edrych ar y gwaith papur yn y lleoliad – ond nid yw hyn yn flaenoriaeth.

Mae'r rhestr isod yn awgrymu rhai meysydd i'w hystyried yn ystod yr ymweliad – ond mae'n annhebygol y gallwch roi sylw i bob un ohonynt. Mae ymweliad yn cymryd 45 munud i awr fel arfer, felly bydd angen i chi flaenoriaethu'r hyn y mae angen i chi ei wybod o'r awgrymiadau isod.

1. Dylai aseswyr gyflwyno eu hunain i'r bobl ifanc a gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus. Bydd aseswyr yn arsylwi sesiynau **gwaith ieuenctid** a byddant yn chwilio am y pethau allweddol canlynol yn ystod y gwaith ieuenctid a arsylwir:

- Beth yw diben y sesiwn hon – beth mae'r gweithwyr yn bwriadu ei gyflawni, trwy eu hymarfer bwriadol?
- Pa mor dda mae'r bobl ifanc yn ymgysylltu â'r sesiwn?
- A yw'r bobl ifanc wedi bod yn rhan o gynllunio'r sesiwn a chyflwyno unrhyw ran ohoni?
- A yw'r bobl ifanc yn 'dysgu' unrhyw beth o'r sesiwn – fe allai hyn ymwneud â'u hagweddau a'u gwerthoedd; maes gwybodaeth neu ddatblygu sgíl o ryw fath. A yw'n rhan o gyfres o sesiynau neu'n sesiwn unigol?
- A yw'r bobl ifanc yn ymwneud â gwerthuso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu neu'r sesiwn gyfan mewn unrhyw ffordd?
- Sut mae'r gweithwyr yn gweithredu fel tîm?
- Sut mae'r gweithwyr yn cyfathrebu â'r bobl ifanc?

- Sut mae'r gweithwyr yn ymateb i unrhyw fath o broblemau disgyblaeth neu ymddygiadol sy'n codi?
- Sut mae'r gweithwyr yn hyrwyddo ymarfer cynhwysol?
- A oes digon o adnoddau ar gyfer y sesiwn?
- A oes unrhyw ffactorau eraill yn dylanwadu ar y sesiwn ~ sut mae'r gweithwyr yn ymateb i hyn?

2. Dylai aseswyr hefyd ystyried yr **amgylchedd** y mae'r sesiwn yn cael ei chynnal ynddo, er enghraifft:

- A oes unrhyw ffotograffau neu arddangosiadau cyfredol sy'n dangos beth mae'r bobl ifanc wedi bod yn ei wneud yn rhan o'r prosiect?
- A oes unrhyw wybodaeth am reolau sylfaenol neu ddisgwyliadau o ran ymddygiad?
- A oes unrhyw beth i ddangos bod cyflawniadau'r bobl ifanc yn cael eu dathlu – tystysgrifau, tlysau, toriadau papur newydd, ffotograffau?
- A roddir sylw da i Iechyd a Diogelwch – hysbysiadau addas, gweithdrefnau llofnodi i mewn, briffiadau diogelwch?
- A oes tystiolaeth o ddiogelu ar waith – gwybodaeth am rannu gwybodaeth, gwrth-fwlio, creu lle diogel?
- Ai'r sefydliad sy'n berchen ar y lleoliad? A yw'n cael ei hurio? Fe allai hyn effeithio ar yr hyn y gallwch ei weld.

3. Dylai aseswyr siarad â'r **bobl ifanc** ac ystyried pethau fel:

- Pa mor hir y mae'r bobl ifanc wedi bod yn dod i'r ddarpariaeth
- Pam mae'r bobl ifanc yn dod a beth maen nhw'n credu eu bod yn ei gael ohono
- Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y ddarpariaeth a sut mae'r bobl ifanc yn cael eu cynnwys
- P'un a yw'r bobl ifanc yn gallu disgrifio unrhyw ddigwyddiadau/ rhaglenni penodol maen nhw wedi bod yn rhan ohonynt a'r budd maen nhw wedi'i gael o gymryd rhan
- P'un a yw'r bobl ifanc yn credu bod y gwaith ieuenctid wedi cael effaith ar unrhyw agweddau eraill ar eu bywydau e.e. perthnasoedd/ hyder/ alcohol/ presenoldeb yn yr ysgol/ gwneud penderfyniadau ac ati…
- Unrhyw enghreifftiau o waith gan y bobl ifanc

- Unrhyw enghreifftiau o dystysgrifau, gwobrau, llyfrau lloffion, dyddiaduron neu bethau tebyg

4. Mae angen i aseswyr siarad â'r **gweithwyr ieuenctid** neu'r rheolwyr gwaith ieuenctid sy'n ymwneud â chyflwyno sesiwn. Efallai byddant yn dymuno trafod:

- Y cynllun rhaglen cyffredinol ar gyfer y gwaith a arsylwyd
- Cynllun y sesiwn
- Enghreifftiau o gynlluniau sesiwn blaenorol ynghyd â'r gwerthusiadau
- Sut mae'r prosiect hwn neu'r sesiwn hon yn cyd-fynd â'r fframwaith cwricwlwm ar gyfer y Sefydliad
- Sut mae'r gweithwyr yn mesur ac adrodd ar ganlyniadau ar gyfer y bobl ifanc
- Unrhyw waith partneriaeth gyda gweithwyr eraill yn yr ardal
- P'un a yw'r gweithwyr yn cael arfarniad blynyddol
- P'un a yw'r gweithwyr yn cael gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a'u proses os oes mater diogelu yn y sesiwn
- Pwy sy'n gyfrifol am Iechyd a Diogelwch yn y sesiwn hon

Ar ddiwedd yr ymweliad, dylech gofnodi'ch dyfarniadau allweddol, gan ddefnyddio'r templed cofnodi ymweliad arsylwadol. Ni ddisgwylir i chi ddisgrifio popeth a welsoch, ond eich barn ynglŷn ag i ba raddau y dangoswyd y safon 'dda' yn ystod yr ymweliad.